

engage Cymru

# Prosiect Cyrraedd y Nod

Mewn partneriaeth â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth  
ac Oriel Myrddin



## Adroddiad Gwerthuso

Jill Piercy Mai 2011



**engage**  
in Cymru

## **engage Cymru**

### **Gwerthusiad Cyrraedd y Nod**

#### **Oriel Myrddin a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

##### **Cynnwys:**

##### **1.Crynodeb Gweithredol**

- 1.1 Cefndir
- 1.2 Rhanddeiliaid a buddiolwyr
- 1.3 Rhaglenni gweithgaredd
- 1.4 Gwerthuso
- 1.5 Canlyniadau
- 1.6 Argymhellion a chasgliadau

##### **2 .Cyflwyniad**

- 2.1 Cefndir
- 2.2 Amlinelliad o'r Prosiect
- 2.3 Amcanion allweddol y prosiectau cyfranogol
- 2.4 Amcanion allweddol y gwerthusiad
- 2.5 Canlyniadau allweddol
  - 2.5.1 Canlyniadau allweddol ar lefel y prosiect
  - 2.5.2 Canlyniadau allweddol ar lefel strategol

##### **3. Paratoi'r Prosiect**

- 3.1 Canolfan letyol
- 3.2 Dethol rhanddeiliaid
  - 3.2.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
  - 3.2.2 Oriel Myrddin
- 3.3 Dethol buddiolwyr ac artistiaid
  - 3.3.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
  - 3.3.2 Oriel Myrddin

##### **4.Gwerthuso'r Prosiect**

###### **Methodoleg**

Cyfuniad o ddulliau i gasglu data meintiol ac ansoddol ar lefel y prosiect ac ar lefel strategol

- 4.1 Lefel y prosiect : Casglu tystiolaeth o effeithiau'r prosiect ar y buddiolwyr
  - 4.1 .1 Ffynonellau tystiolaeth feintiol
  - 4.1.2 Ffynonellau tystiolaeth ansoddol
- 4.2 Tystiolaeth ar lefel strategol

##### **5. Casglu Data ac astudiaethau Achos**

- 5.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - cyfranogwr S
  - 5.1.1 Meintiol
  - 5.1.2 Ansoddol
  - 5.1.3 Canlyniadau

- 5.1.4 Adborth o'r holiaduron
- 5.2 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - cyfranogwr C
  - 5.2.1 Meintiol
  - 5.2.2 Ansoddol
  - 5.2.3 Canlyniadau
  - 5.2.4 Adborth o'r holiaduron
- 5.3 Oriel Myrddin – cyfranogwr D
  - 5.3.1 Meintiol
  - 5.3.2 Ansoddol
  - 5.3.3 Canlyniadau
  - 5.3.4 Adborth o'r holiaduron
- 5.4 Oriel Myrddin - cyfranogwr K
  - 5.4.1 Meintiol
  - 5.4.2 Ansoddol
  - 5.4.3 Canlyniadau
  - 5.4.4 Adborth o'r holiaduron

## **6. Gwerthusiad ar lefel strategol**

- 6.1 Problemau a heriau
- 6.2 Partneriaethau'r prosiect
- 6.2 Canlyniadau annisgwyl

## **7. Argymhellion a Chasgliadau**

- 7.1 Lefel y prosiect
- 7.2 Lefel strategol

## **8. Atodiadau**

- 8.1 Holiadur i'r Ganolfan Letyol
- 8.2 Holiadur i'r tiwtoriaid
- 8.3 Holiadur i staff / rhieni / gofalwyr
- 8.4 Holiadur i'r buddiolwyr

## **1.Crynodeb Gweithredol**

### **1.1 Cefndir**

- Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cyrraedd y Nod a'i hamcan yw lleihau'r nifer o bobl ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o hynny. Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu i fanteisio ar y cyfleoedd cyllido sydd ar gael drwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yng Nghymru.
- engage yw'r corff arweiniol yn y DU sy'n cynrychioli gweithwyr addysg celf proffesiynol mewn orielau yn y DU ac mewn 18 o wledydd ar draws y byd. Mae engage yn hybu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o'r celfyddydau gweledol drwy raglenni addysg mewn orielau. Mae engage yn cefnogi addysg mewn orielau drwy wneud y canlynol:
  - Hyfforddi: datblygiad proffesiynol yn hybu ymarfer da drwy seminarau, diwrnodau briffio, digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau
  - Prosiectau a rhaglenni
  - Eiriolaeth
  - Lledaenu ymarfer

### **1.2 Rhanddeiliaid a Buddiolwyr**

Lleolwyd prosiect Cyrraedd y Nod engage Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac Oriol Myrddin, Caerfyrddin

#### **Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

- Gweithiodd Canolfan y Celfyddydau gyda'r Tîm Troseddau'r Ifanc lleol ac Uned Cymorth Dysgu Ysgol Penglais i ddethol dau fuddiolwr.
- Detholwyd artistiaid i gydweddu ag anghenion y buddiolwyr
- Datblygwyd y rhaglen o gwmpas anghenion ac argaeledd amser y buddiolwyr mewn ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid.

#### **Oriel Myrddin, Caerfyrddin**

- Gweithiodd Oriol Myrddin gydag Ysgol Arbennig Rhydygors ac Ysgol Arbennig Aalton House i ddethol dau fuddiolwr.
- Detholwyd artistiaid i gydweddu ag anghenion y buddiolwyr
- Datblygwyd y rhaglen o gwmpas anghenion ac argaeledd amser y buddiolwyr mewn ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid.

### **1.3 Rhaglenni Gweithgaredd**

#### **Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

- Cafodd un o'r cyfranogwyr ifanc y rhan fwyaf o'i sesiynau gydag artist tecstilau ynghyd â rhai gyda cheramegydd a ffotograffydd
- Cafodd y cyfranogwr arall y rhan fwyaf o'i sesiynau gyda ffotograffydd, ynghyd â rhai gyda cheramegydd ac artist tecstilau
- Roedd yr holl weithgareddau yn stiwdios yr artistiaid a gweithdai yng Nghanolfan y Celfyddydau
- Taenwyd un prosiect dros chwe mis a'r llall arall dros ddau fis.

#### **Oriel Myrddin**

- Gweithiodd un person ifanc gydag artist gweledol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys lluniadu, argraffu, animeiddio a

pherfformio dros gyfnod o 10 mis. Roedd y gweithgareddau hyn yn bennaf yn Oriol Myrddin gyda dwy sesiwn yng Ngweithdy Argraffu Abertawe

- Gweithiodd y cyfranogwr arall yn bennaf gyda gwehydd oedd hefyd yn gweithio gyda cherameg. Cynhaliwyd rhai sesiynau gydag artist tecstilau a gwneuthurwr ffelt. Roedd y sesiynau'n llai rheolaidd oherwydd amgylchiadau allanol. Cynhaliwyd y sesiynau yn Oriol Myrddin, yr ysgol, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol a stiwdio'r artist.

Roedd yr holl fuddiolwyr hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau dydd i ddydd yn yr orielau ac fe'u hanogwyd i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol yn ogystal â'u sgiliau celfyddydol.

#### **1.4 Gwerthuso**

- Gwnaed y gwerthusiad ar lefel y prosiect ac ar lefel strategol gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol
- Roedd y data'n cynnwys adroddiadau a dyddiaduron tiwtoriaid, arsylwi sesiynau gan y gwerthuswr, gwaith a llyfrau braslunio'r buddiolwyr, adborth gan fuddiolwyr, gweithwyr cymorth, rhieni, artistiaid a chanolfannau lletyol.

#### **1.5 Canlyniadau**

Yn gyffredinol, ystyriodd pob parti fod y prosiect yn llwyddiant.

- Roedd y buddiolwyr yn gweithio'n frwd ar y gweithgareddau, yn enwedig gan eu bod wedi'u targedu ar eu cyfer a'u ddiddordebau yn hytrach na bod yn rhan o gwricwlwm set.
- Cwblhaodd pob cyfranogwr gorff o waith a dysgu technegau newydd
- Daeth pob cyfranogwr yn ymwybodol o'r ffordd y mae oriel a gweithle stiwdio yn cael eu rhedeg a'r mathau o waith sydd i'w wneud
- Cafodd sgiliau cymdeithasol eu datblygu a'u gwella yn ogystal â sgiliau celfyddydol
- Cafwyd cynnydd mewn hyder a hunan-barch
- Cafwyd profiad o sgiliau proffesiynol megis gweithio mewn tîm, cynllunio a chwrrd â therfynau amser

#### **Canlyniadau annisgwyl**

- Cafodd tri o'r pedwar buddiolwr arddangosfeydd cyhoeddus o'u gwaith ar ddiwedd y prosiect
- Mae tri o'r pedwar yn ystyried yn ddifrifol parhau â'u haddysg i astudio celf ymhellach
- Roedd dau fuddiolwr yn awyddus i fynychu dosbarthiadau celf / crefft / ffotograffiaeth y tu allan i'r ysgol
- Cafodd un cyfranogwr dri adroddiad yn y wasg a chyfweliad â phapur lleol
- Cynigiwyd arddangosfa dau berson i un cyfranogwr yn oriel yr ysbyty lleol
- Gofynnwyd i un cyfranogwr a gâi ei ffotograffau eu defnyddio mewn llyfryn ac ar wefan Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Gwnaeth dau o'r buddiolwyr ymdrech glir i'w gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd a fyddai fel arfer yn frawychus, gan oresgyn eu hofnau
- Nid oedd strategaeth ymadael wedi'i sefydlu felly doedd dim dilyniant naturiol i'r buddiolwyr er bod pob lleoliad yn bwriadu ceisio cadw rhyw fath o gysylltiad

- Roedd y tiwtoriaid i gyd yn teimlo eu bod wedi dysgu llawer ac wedi'u hymestyn wrth feddwl am ffyrdd o weithio gyda phobl ifanc agored i niwed ac felly'n deall mwy am bobl ifanc NEET a'r trafferthion y maent yn eu hwynebu.

## 1.6 Argymhellion a Chasgliadau

Yn gyffredinol, mae'n amlwg fod yr holl fuddiolwyr wedi gwerthfawrogi'r profiad a bod y bobl ifanc wedi elwa llawer ar gael y fath ymglymiad dwys â phrosiect y tu allan i'r ysgol a'r cartref. Cafodd y buddiolwyr y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau mewn oriel ac o'i chwmpas. Cawsant gyfle i weld arddangosfeydd, dysgu sut i ddadbacio darnau arddangos a sut i'w harddangos, sut i dynnu ffotograffau o waith, sut i weithio gydag aelodau eraill o dîm mewn oriel a sut i drafod eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Yn nhermau eu gwaith eu hunain, rhoddwyd cyfle iddynt weld amrywiaeth o amgylcheddau gwaith o stiwdios artistiaid i orielau a gweithdy argraffu a gofynnwyd iddynt gysylltu â staff a'r cyhoedd. Mae'n amlwg bod llawer o fuddion cadarnhaol wedi codi i'r bobl ifanc drwy ymglymu mewn prosiect o'r math hwn.

- Byddai wedi bod yn fuddiol cynnal cyfarfod ar ddechrau a diwedd pob prosiect gyda'r holl bartion. Er bod hyn wedi'i gynllunio'n wreiddiol, nid oedd yn bosibl gan fod y prosiectau'n dechrau ar adegau gwahanol.
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael y model gwerthuso 'Dangos Llwyddiant' ar ddechrau'r prosiect yn hytrach nag ar y diwedd gan nad oedd y fersiwn drafft yn hawdd ei ddilyn a'i weithredu
- Mae'n bosibl mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol, y gallai achrediad fod o gymorth i bobl ifanc barhau â'u haddysg neu ddod o hyd i gyflogaeth. Mae engage Cymru yn awyddus i ymchwilio i'r posibilrwydd o achrediad *Arts Award* yng Nghymru
- Awgrymwyd mewn rhai achosion y gallai fod yn briodol cael mwy nag un person ifanc ar y tro ac o bosibl hyd at dri neu bump ar y tro fel bod y person ifanc yn gallu dysgu gweithio mewn tîm a deall parch rhwng cymheiriaid.
- Byddai diwrnod hyfforddi i diwtoriaid ar ddechrau'r prosiect yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth weithio gyda phobl ifanc agored i niwed, mewn meysydd megis hyfforddiant ymwybyddiaeth, a datblygu proffesiynol i artistiaid a thiwtoriaid.
- Roedd hyblygrwydd y dull a gyflwynwyd gan gynllun engage Cymru yn golygu bod pob prosiect yn gallu canolbwyntio ar anghenion y person ifanc ac addasu'n unol â hynny. Roedd y ddwy ganolfan a'r holl diwtoriaid yn hollol hyblyg gyda'r prosiect.
- Byddai'n ddefnyddiol cynllunio strategaeth ymadael fel nad yw'r bobl ifanc yn teimlo ar goll yn sydyn. Gellid neilltuo peth cyllid ar gyfer diwedd arafach neu integreiddio i ddsbarthiadau mwy rheolaidd neu gyfleoedd gwirfoddoli/cysgodi.

## 2. Cyflwyniad

### 2.1 Cefndir

#### Cyrraedd y Nod

Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cyrraedd y Nod a'i hamcan yw lleihau'r nifer o bobl ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o hynny. Mae'r prosiect

wedi'i ddatblygu i fanteisio ar y cyfleoedd cyllido sydd ar gael drwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2009, dyfarnwyd £27 miliwn i brosiect Cyrraedd y Nod o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dau brosiect: *Troedle Cyntaf*, a *Llwybrau i'r Brig*. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio ar y prosiect Troedle Cyntaf sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed rhag aros yn yr ysgol a symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth.

### **engage Cymru**

engage yw'r corff arweiniol yn y DU sy'n cynrychioli gweithwyr addysg celf proffesiynol mewn orielau yn y DU ac mewn 18 o wledydd ar draws y byd. Mae engage yn hybu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o'r celfyddydau gweledol drwy raglenni addysg mewn orielau. Mae engage yn cefnogi addysg mewn orielau drwy wneud y canlynol:

- Hyfforddi: datblygiad proffesiynol yn hybu ymarfer da drwy seminarau, diwrnodau briffio, digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau
- Prosiectau a rhaglenni
- Eiriolaeth
- Lledaenu ymarfer

Gyda 70 o aelodau yng Nghymru, mae engage Cymru yn cefnogi'r sector addysg orielau yng Nghymru. Mae Grŵp Datblygu engage Cymru yn cynnwys Jane Sillis, Cyfarwyddwr engage; Gwenno Jones, Rheolwr Celfyddydau Diwylliant a Digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint; Cath Sherell, Swyddog Celfyddydau Gweledol Canolfan Celfyddydau Aberystwyth; Lisa Edgar, Rheolwr Addysg Ffotogallery; Elen Bonner, Swyddog Addysg Canolfan Grefftau Rhuthun, Bernadette Rippon, Pennaeth Dysgu, Oriol Mostyn ac Eleri Wyn Evans, Swyddog Addysg yn Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Caerdydd. Mae engage Cymru wedi derbyn cyllid prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru ers 1995 ac mae'n gweithio mewn partneriaeth yn gyson ag awdurdodau lleol ar draws Cymru i gyflenwi rhaglenni strategol o waith mewn cydweithrediad ag artistiaid ac orielau. I gael rhagor o wybodaeth am engage ewch i [www.engage.org](http://www.engage.org)

### **2.2 Amlinelliad o'r Prosiect**

Dechreuodd prosiect Cyrraedd y Nod engage Cymru fel prosiect peilot yn cefnogi lleoliadau gwirfoddol i bobl ifanc agored i niwed ac anodd eu cyrraedd, nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu mewn perygl o hynny, mewn dwy oriel yng Nghymru - Canolfan Celfyddydau Aberystwyth ac Oriol Myrddin, Caerfyrddin. Y bwriad oedd seilio'r prosiect ar lawer o amcanion a nodau prosiect engage Visual Roots a gynhaliwyd yn Lloegr yn unig. Roedd Visual Roots yn cynnwys 20 o bobl ifanc agored i niwed a gafodd lleoliadau gwaith mewn 10 lleoliad celfyddydau gweledol ar draws Lloegr. Cafodd y bobl ifanc achrediad, yn bennaf drwy *Arts Award*, a chyllidwyd y rhaglen gan Gyngor Celfyddydau Lloegr drwy'r Loteri a'r Adran Addysg.

Canfu ymchwil o gam gyntaf Visual Roots fod lleoliadau gwirfoddol yn fuddiol iawn i bobl ifanc anodd eu cyrraedd, ac yn cynnig cyfle i orielau ddysgu ffyrdd newydd o weithio gyda'r grŵp hwn. Mae'r math hwn o ymglymiad dwys un i un hefyd yn rhoi cyfle i orielau ddatblygu'r adnoddau ar gyfer dysgu'n seiliedig ar waith.

Rheolwyd rhaglen Cyrraedd y Nod engage Cymru gan engage Cymru a'i chyfenwi gan Oriel Myrddin, Caerfyrddin a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Er bod prosiect engage Cymru yn seiliedig yn fras ar fodel Visual Roots, yr amcan oedd annog pobl ifanc nad oeddent â chefnidir academaidd i gael cyfleoedd anffurfiol i ymgysylltu ag orielau ac artistiaid a datblygu sgiliau celf a sgiliau bywyd mewn amgylchedd creadigol. Cydnabyddir yn eang fod dod o hyd i gyfleoedd yn y sector celfyddydau gweledol yn anodd, yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt yn academaidd.

Roedd y ddau leoliad yn darparu lleoliad gwaith i ddau berson ifanc. Dyfeisiwyd rhaglen waith ar gyfer pob cyfranogwr drwy drafod â nhw, y partner corff pobl ifanc a staff yr oriel. Roedd yr ymgynghori hwn yn allweddol i lwyddiant y prosiect. Gweithiodd y ddwy oriel ag unedau cyfeiriol a rhwydweithiau cymorth pobl ifanc eraill i recriwtio pobl ifanc. Dyfeisiwyd rolau'r lleoliad gwaith gan yr orielau, yn gweithio ar y cyd ag artistiaid, staff yr oriel a hyfforddwyr hunangyflogedig. Lle'r oedd yn bosibl roedd pob prosiect yn gysylltiedig â rhaglenni arddangos yn yr orielau. Roedd y rhaglenni'n wahanol ar gyfer pob cyfranogwr ac yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithdai, dysgu sgiliau newydd, helpu i osod arddangosfeydd, ffotograffiaeth, gwneud printiau, Photoshop, tecstilau, cerameg. Ar wahân i sgiliau celf, roedd y buddiolwyr yn cael eu hannog i ryngweithio â staff eraill, dysgu sut i wrando ar gyfarwyddiadau, defnyddio ymddygiad priodol, cyrraedd ar yr amser cywir, cael eu hysbrydoli a pharchu eraill. Drwy gydol y gwerthusiad cyfeirir at y bobl ifanc â llythyren gyntaf eu henw cyntaf, er mwyn diogelu eu hunaniaeth.

Un o'r buddion allweddol i bobl ifanc yn nhermau'r sgiliau y gallant ddysgu mewn orielau yw bod modd trosglwyddo'r rhain i swyddi eraill gan eu bod yn sgiliau bywyd / gwaith. Yn ogystal â datblygu sgiliau celfyddydol a chyflogaeth, gall pobl ifanc ennill sgiliau a buddion eraill megis:

- Gweithio fel aelod o dîm
- Agweddau cymdeithasol o weithio gyda phobl
- Presenoldeb rheolaidd a derbyn cyfrifoldeb
- Sgiliau proffesiynol fel cwrdd â therfynau amser, gwaith tîm a bod yn drefnus

Roedd prosiect Visual Roots yn cael ei redeg fel hyfforddiant achrededig. Fodd bynnag cafodd prosiect engage Cymru ei redeg fel prosiect peilot ac nid oedd yn achrededig. Yn y tymor hirach os bydd cyllid pellach yn cael ei sicrhau, bwriad engage Cymru yw treiglo'r rhaglen hon ar draws orielau Cymru, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau achrediad.

### **2.3 Amcanion Allweddol y prosiectau cyfranogol oedd:**

- Helpu i gynyddu hyder a chymhelliant y bobl ifanc sy'n cymryd rhan
- Gwella sgiliau cyfathrebu'r buddiolwyr a'u gallu i weithio gyda'i gilydd mewn timau a gwneud penderfyniadau



- Helpu'r buddiolwyr i gredu y gallant osod nodau iddynt eu hunain a chyflawni eu potensial.
- Darparu man cychwyn diogel i bobl ifanc sydd naill ai wedi ymeithrio neu sydd mewn perygl o wneud hynny er mwyn iddynt allu dechrau ar eu siwrnai'n ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth
- Darparu cysylltiadau cryf â chyrff eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc a all gynnig cefnogaeth barhaus i'r buddiolwyr wrth iddynt barhau eu siwrnai'n ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Datblygu partneriaethau cyfredol a datblygu partneriaethau newydd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer parhau â gwaith tebyg yn y maes hwn y tu hwnt i amserlen y cyllid prosiect hwn.

## **2.4 Amcanion Allweddol y Gwerthusiad**

- Dynodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda
- Dangos ymarfer da i bartneriaid
- Galluogi CCC i gynllunio ymyriadau yn y dyfodol
- Darparu tystiolaeth i ddangos effaith ymyriadau celfyddydol ar gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd tymor hir pobl ifanc a ddynodir fel NEET neu sydd mewn perygl o fod felly
- Helpu pobl ifanc i wireddu eu cynnydd

Caiff y dull gwerthuso ei danategu drwy fesur y sgiliau canlynol:

- Rhyngweithio
- Parch at eraill
- Cymhelliant a chyfranogiad gweithredol
- Annibyniaeth

## **2.5 Canlyniadau allweddol**

Bydd y gwerthusiad yn coladu, dadansoddi ac ystyried y dystiolaeth a gesglir ar ddwy lefel:

### **2.5.11. Ar Lefel y Prosiect**

Pa effaith y gall gweithio gydag orielau/artistiaid ei gael ar helpu pobl ifanc anodd eu cyrraedd i gynyddu eu hunan-barch a'u hyder, gwella eu sgiliau cyfathrebu, codi eu dyheadau galwedigaethol a dysgu sgiliau bywyd perthnasol?

### **2.5.2. Ar Lefel Strategol**

Beth fu'r canlyniadau dysgu i artistiaid, orielau, asiantaethau ieuencid?

Bydd y gwerthusiad yn ystyried y canlyniadau ac yn llunio amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys:

- Strategaethau gwirioneddol ar gyfer ardystio gwerth / cyflwyno'r achos
- Strategaethau i greu cysylltiadau/gweithio mewn partneriaeth yn y tymor hir

## **3. Paratoi'r Prosiect**

### **3.1 Canolfannau lletyol**

- Gwahoddwyd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac Oriol Myrddin, Caerfyrddin i fod yn ganolfannau lletyol i'r prosiect.
- Gofynnwyd iddynt ddarparu lleoliadau gwaith i ddau berson ifanc ym mhob lleoliad.
- Gofynnwyd iddynt weithio gydag unedau cyfeiriol a chymorth ieuencid arall

## **3.2 Dethol rhanddeiliaid**

### **3.2.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

Roedd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth eisoes wedi sefydlu cysylltiadau â Thîm Troseddau'r Ifanc Lleol, yr Uned Cymorth Dysgu Lleol, cyrff hyfforddiant ieuenctid lleol, y Groes Goch, Gofalwyr Ifanc Ceredigion ac Uned Cymorth Dysgu Ysgol Penglais.

Gan fod y Swyddog Addysg yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn dymuno cynnwys dau gorff gwahanol wrth ddethol buddiolwyr, cysylltodd ag Uned Cymorth Dysgu Ysgol Penglais a Thîm Troseddau'r Ifanc. Roedd wedi gobeithio dynodi dau berson ifanc oedd wedi dangos diddordeb yn y prosiect Cyrraedd y Nod arall ar draws Ceredigion, oherwydd roedd yn teimlo y gallent elwa ar gyfnod mwy dwys o waith. Roedd dethol cyfranogwr o Benglais yn rhwydd ond cafodd drafferth â'r ail gyfranogwr. Roedd Tîm Troseddau'r Ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau Cyrraedd y Nod yng Ngheredigion, oedd yn golygu gohirio dechrau prosiect Canolfan y Celfyddydau tan yr hydref. Yn ystod y prosiect hwnnw roedd yn amlwg fod C yn rhywun a fyddai'n elwa ar waith mwy dwys; fodd bynnag erbyn hynny roedd y cwestiwn a gâi pobl ifanc elwa ar fwy nag un rhaglen wedi codi. Cymerodd hyn beth amser i'w ddatrys a dechreuodd yr ail brosiect lawer yn hwyrach na'r cyntaf.

### **3.2.2 Oriol Myrddin**

Ni chafodd Oriol Myrddin broblemau i ddod o hyd i fuddiolwyr. Roedd yr oriel yn ddiweddar wedi bod yn gweithio gyda'i huned cyfeirio lleol, Aalton House ar brosiect dan y teitl '*Drawing Together from the Everyday*' ac roedd diddordeb gan y ddau bartner mewn datblygu'r berthynas ymhellach gan gynnig rhagor o gyfleoedd i ddau berson ifanc. Mae gan Oriol Myrddin gysylltiadau clos hefyd â Gwasanaeth Addysg y Sir ac Athro Celf Ymgynghorol y sir.

## **3.3 Dethol buddiolwyr ac artistiaid**

### **3.3.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

Y ddau berson ifanc a ddetholwyd oedd S o Uned Cymorth Dysgu Ysgol Penglais ac C o Dîm Troseddau'r Ifanc. Roedd gan S ddiddordeb byw mewn ffasiwn a bu'n cydweithio â'r artist tecstilau, Becky Knight. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, penderfynwyd mewn ymgynghoriad â S y byddai modd iddi gael rhai sesiynau gyda'r ceramegydd, Roger Guy-Young a'r ffotograffydd, Steve Bailey i ehangu ei phrofiad o ffurfiau celfyddydol.

Roedd gan C ddiddordeb mewn ffotograffiaeth a chafodd gydweithio â'r ffotograffydd, Steve Bailey oedd yn brif diwtor iddo er iddo hefyd gael sesiynau gyda'r ceramegydd, Roger Guy Young a'r artist tecstilau, Becky Knight.

### **3.3.2 Oriol Myrddin**

Cafodd K ei dethol fel cyfranogwr gan fod ganddi ddiddordeb byw mewn celf a thecstilau ond roedd yn ddihyder ac yn ansicr wrth ryngweithio'n gymdeithasol. Mae'n mynychu Ysgol Arbennig Aalton House yng Nghaerfyrddin ac yn dilyn damwain, mae'n derbyn triniaeth ysbyty.

Cafodd Ainsley ei dethol oherwydd ei bod yn artist oedd â phrofiad o weithio â phobl ag anghenion arbennig. Mae'n wehydd sy'n ymddiddori yn adeiladwaith ffisegol a throsiadol brethyn a'i berthynas â'r corff, cof a gofod. Mae'n cyfuno gwehyddu

traddodiadol ag amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys technolegau clywedol, print, ffotograffiaeth a cherameg i greu gosodweithiau safle-benodol.

Ar y dechrau, gofynnodd K a gâi ei ffrind, Sh, oedd yn dioddef agoraffobia, ddod gyda hi i'r sesiynau yn Oriol Myrddin. Cytunwyd ar hyn, er nad oedd Sh yn cael ei chyfrif fel buddiolwr. Roedd modd iddynt roi cefnogaeth i'w gilydd.

Rhodddwyd K i gydweithio â'r artist Ainsley Hilliard a hefyd bu'n gweithio â grŵp o Aalton House gyda Julia Griffiths Jones a'r gwneuthurwr ffelt, Seren Stacey.

Yr ail fuddiolwr oedd D a gafodd ei gynnig gan Ysgol Arbennig Rhydygors yng Nghaerfyrddin. Roedd ganddo ddiddordeb mewn arlunio a cherddoriaeth ac fe'i rhodddwyd i gydweithio â'r artist Tom Goddard.

Roedd y llwyddiant wrth baru artistiaid a buddiolwyr yn bennaf o ganlyniad i sensitifrwydd a phroffesiynoldeb yr addysgwyr oriel yn y ddwy ganolfan. Buont yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn dethol artistiaid oedd yn eu barn nhw yn addas i weithio â phobl ifanc benodol.

## **4.GWERTHUSO'R PROSIECT**

### **Methodoleg**

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau i gasglu data meintiol ac ansoddol ar lefel y prosiect ac ar lefel strategol

#### **4.1 Lefel y prosiect:**

##### **4.1.1.Meintiol:**

- Adnoddau
- Gweithgareddau
- Nifer a math o sesiynau
- Hyd ac amledd y sesiynau
- Nifer o fuddiolwyr
- Rhanddeiliaid a phartneriaid
- Canlyniadau

##### **4.1.2 Ansoddol:**

Casglwyd o'r canlynol:

- Adroddiadau a dyddiaduron tiwtoriaid
- Arsylwi sesiynau gan y gwerthuswr
- Astudiaethau Achos
- Gwaith a llyfrau brasluniau'r buddiolwyr
- Holiaduron i arweinwyr gweithdai
  - Buddiolwyr
  - Gweithwyr cymorth
  - Rhieni
  - Canolfannau lletyol
- Adroddiadau a dyddiaduron tiwtoriaid

#### **4.2 Lefel strategol**

Casglu tystiolaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Pa broblemau neu heriau sydd wedi codi a sut fyddai'n bosibl mynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol?

- Beth mae partneriaid y prosiect wedi'i ddysgu am gasglu a thystio i ddysgu, gweithio mewn partneriaeth?
- Pa ganlyniadau annisgwyl sydd wedi bod (os o gwbl)?

## **5. Casglu Data ac Astudiaethau Achos**

### **5.1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - cyfranogwr S**

#### **5.1.1 Meintiol**

##### **Adnoddau:**

Cynhaliwyd y gweithgareddau i gyd ar gampws Canolfan y Celfyddydau. Roedd y cyfleusterau yn cynnwys stiwdio Becky, yr ystafelloedd ffotograffiaeth, y stiwdio cerameg a'r gofod arddangos amrywiol.

Prif gyswllt S oedd yr artist Becky Knight a chyfarfu â hi am wyth sesiwn o dair awr dros bedwar mis. Cyfarfu hefyd â'r ffotograffydd, Steve Bailey am dair sesiwn tair awr dros dair wythnos a'r ceramegydd Roger Guy-Young am dair sesiwn o dair awr dros gyfnod o dair wythnos. Cynhaliwyd y prosiect dros chwe mis.

#### **5.1.2 Ansoddol**

##### **Gweithgareddau:**

##### **Gyda Becky, Tecstilau:**

- Cyflwyniad i decstilau yn stiwdio Becky ac ymarfer a dechrau gwneud ffedog
- Gorffen y ffedog ac ymweld â'r arddangosfa yn yr oriel
- Helpu gyda Colourscape, Cerflunwaith sy'n llawn aer y gellir cerdded drwyddo a grëwyd o 'ystafelloedd' o wahanol liwiau
- Gwers unigol ar argraffu sgrin sidan
- Paratoi ar gyfer dosbarth printio (gyda phobl eraill) ac ymweliad ag oriel
- Tecstilau, lamineiddio ac ymweliad ag oriel
- Mynd i ddosbarth argraffu sgrin cyhoeddus
- Dysgu technegau tecstilau - ffyrdd o uno, uno-smwddio, dylunio

##### **Gyda Roger, Cerameg:**

- Helpu i wneud gwaith rheolaidd technegydd di-sgiliau a lled-fedrus e.e. tacluso'r stiwdio, glanhau offer, helpu â llenwi odyd
- Castio-slip rhai ffiolau a gwaelodion lampau gyda moldiau a wnaed gan grŵp arall o bobl ifanc yn ystod prosiect
- Cynllunio a modelu darnau yr oedd am eu cadw iddi ei hun

##### **Gyda Steve, Ffotograffiaeth:**

##### **Sesiwn 1**

- Tynnu ffotograff digidol o gerflun cerameg a wnaed gan fyfyrwr o frîff â'r teitl 'rhodd'. Roedd y myfyrwr wedi gwneud calon gotwm maint llawn â gwydr drychog drosto.
- Tynnu ffotograff digidol o gerflun cerameg a wnaed gan Roger Guy-Young - gwobr ar gyfer y Cyfarwyddwr Buddugol yng Ngŵyl Ffilm Arswyd Canolfan y Celfyddydau
- Tynnu ffotograff digidol o waith cerameg S ei hun yr oedd wedi'i wneud dan arweiniad Roger Guy-Young

##### **Sesiwn 2**

- Hyfforddiant camera du a gwyn a ffotograffiaeth ar leoliad ar dir Canolfan y Celfyddydau

##### **Sesiwn 3**

- Argraffu ei ffotograffau o'r wythnos flaenorol yn yr Ystafell Dywyll

### 5.1.3 Canlyniadau

#### Canlyniadau ffisegol y gweithdai

- Ffedog wedi'i ysbrydoli gan arddull goth
- Cerfluniau ceramig
- Ffotograffau digidol a du a gwyn

#### Canlyniad annisgwyl

- Gwaith yn cael ei arddangos mewn arddangosfa o holl brosiectau Cyrraedd y Nod yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth

### 5.1.5 Adborth o'r holiaduron

#### Adborth gan diwtoriaid:

Roedd yn awyddus iawn i blesio ac yn hyderus yn ei syniadau. Roedd yn cael trafferth i gadw amser ac mae ganddi broblemau trefnu amser. Mae'n hoffus iawn ac yn siaradus ond roedd ganddi rai problemau gyda ffiniau. Roedd yn mwynhau'r sylw drwy weithio un i un ond yn ystyried bod y tiwtoriaid yn 'ffrindiau gorau' oedd yn amhriodol. Roedd yn dilyn cyfarwyddiadau'n gyflym ac roedd ganddi syniadau pendant am ei gwaith. Mae hi'n naturiol greadigol ac yn hapus i weithio mewn cyfryngau gwahanol gyda'r tiwtoriaid gwahanol. Y newid mwyaf cadarnhaol yw bod ei barn am gelf wedi ehangu drwy weld arddangosfeydd a gwaith pobl eraill a phrofodd fod ganddi'r gallu i ganolbwyntio pan fydd ganddi ddiddordeb mewn rhywbeth penodol.

#### Adborth gan yr ysgol:

Roedd y prosiect yn fuddiol iawn i S. Er mai ond ychydig o bethau a newidiodd megis hyder a sgiliau gwrando erbyn diwedd y prosiect, fe brofodd ei bod yn gallu gwneud hynny yn y cyd-destun cywir. Byddai'n fwy effeithiol pe bai modd i'r rhaglen barhau am flwyddyn neu ddwy.

#### Adborth gan riant:

Wedi cael argraff wirioneddol dda o'r bobl oedd yn rhedeg y prosiect. Roeddent yn amyneddgar ac yn garedig. Mae sgiliau ac ymddygiad S yr un fath ond mae bellach yn fwy awyddus i aros ymlaen yn yr ysgol a mynd i'r coleg i astudio celf a drama.

#### Adborth gan S:

Y gwaith argraffu gyda Becky oedd yr hyn y bu'n ei fwynhau fwyaf a dysgodd sgiliau newydd gan gynnwys defnyddio peiriant gwnïo, glanhau'r byrddau argraffu a defnyddio camera. Byddai'n hoffi dysgu mwy am gyfrifiaduron a sut i wneud ffilmiau 3D. Yn wahanol i'w thiwtoriaid, sgoriodd bod ei hyder, ei sgiliau gwrando a meysydd datblygiad personol eraill wedi gwella llawer.

## 5.2 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - cyfranogwr C

### 5.2.1 Meintiol

Prif gyswllt C oedd y ffotograffydd, Steve Bailey y cyfarfu am naw sesiwn tair awr. Hefyd cyfarfu â'r artist, Becky Knight am dair sesiwn tair awr a'r ceramegydd Roger Guy Young am dair sesiwn tair awr. Gan na chafodd y buddiolwr hwn ei ddynodi tan fis Ionawr, bu'r prosiect yn weithredol am gyfnod dwys dros ddau fis.

### 5.2.2 Ansoddol

#### Gweithgareddau:

Gyda Steve, Ffotograffiaeth:

Gan fod C wedi mynegi diddordeb mewn pensaernïaeth ac yn benodol Adeilad Art Deco Chrysler yn Efrog Newydd, anogodd Steve C i archwilio pensaernïaeth campws canolfan y celfyddydau gan ganolbwyntio ar nodweddion ac onglau anarferol.

### **Gyda Roger, Cerameg:**

Anogodd Roger C i fynd â model papur 3D o adeilad Chrysler a'i ystumio'n siapau gwahanol a thynnu ffotograffau ohono. Arweiniodd hyn at archwiliadau mewn clai a ffyrdd o greu ffenestri'r adeilad drwy wasgu rhwyd i'r clai. Arweiniodd archwiliadau pellach at greu tirwedd bensaernïol haniaethol o glai. Tynnwyd ffotograffau o'r agwedd hon o'r prosiect gan Steve a C.

### **Gyda Becky, Tecstilau:**

Dangosodd Becky i C sut i wneud printiau sgrin sidan a dyluniodd C ei gynlluniau ei hun a'u hargraffu ar grys T.

## **5.2.3 Canlyniadau**

### **Canlyniadau ffisegol y gweithdai**

- Cerflun pensaernïol mewn clai
- Ffotograffau digidol o'r bensaernïaeth o gwmpas Canolfan y Celfyddydau
- Crys T sgrin sidan

### **Canlyniadau annisgwyl:**

- Gwaith yn cael ei arddangos mewn arddangosfa o holl brosiectau Cyrraedd y Nod yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth
- Gofynnodd y Cyfarwyddwr a gâi ddefnyddio rhai o ffotograffau C o unedau creadigol Canolfan y Celfyddydau yn eu deunydd cyhoeddusrwydd
- Gwahoddwyd C i ddangos ei ffotograffau mewn sioe dau berson yn Ysbyty Bronglais
- Gwahoddwyd C i ddefnyddio'r labordy digidol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth i weithio ar ei ffotograffiaeth

## **5.2.4 Adborth o'r holiaduron**

### **Adborth gan y tiwtoriaid:**

Roedd C yn dawel ac yn swil ac nid oedd yn gwneud llawer o gyswllt â llygaid. Drwy bob un o'r gweithdai dangosodd dalent am gofio manylion a chyfarwyddiadau, daeth yn fwy cadarnhaol am ei waith ac roedd yn gallu trafod ei syniadau. Roedd ei waith yn ddyfeisgar a llwyddodd i gwblhau nifer o brosiectau'n gyflym.

### **Adborth gan C**

Roedd yn mwynhau'r ffotograffiaeth yn fawr ac yn mwynhau dysgu am y defnydd o olau. Mae ganddo ddiddordeb mewn pensaernïaeth ac roedd y mwyafrif o'r prosiectau'n seiliedig ar y thema hon. Roedd yn teimlo ei fod wedi dod yn fwy hyderus o lawer yn ei waith celf ei hun ac yn fwy creadigol drwy arbrofi a gallu gwneud penderfyniadau. Roedd yn mwynhau cyfarfod â phobl newydd.

### **Adborth Gan y Lleoliad ar y Prosiectau - Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth:**

Roedd amcanion y prosiect yn glir: y dylai'r prosiect ganolbwyntio ar y bobl ifanc, a rhoi profiad newydd o'r celfyddydau iddynt, gwella eu profiad bywyd a'u sgiliau bywyd. Roedd problemau wrth geisio dynodi buddiolwyr gan fod prosiectau Cyrraedd

y Nod eraill wedi'u cynnal yn lleol ac nid oedd pobl ifanc yn gallu cyfranogi mewn mwy nag un prosiect (cael eu cyfrif ddwywaith).

Roedd dynodi artistiaid yn rhwydd. Y man cychwyn oedd anghenion y bobl ifanc a'u cydweddu ag artistiaid profiadol yr oedd y ganolfan wedi gweithio â hwy'n flaenorol. Roedd y berthynas ag engage Cymru yn syml ac yn gefnogol iawn. Yr hyn oedd yn gweithio orau oedd yr hyblygrwydd oedd wedi'i gynnwys yn y cynnig gan engage Cymru a'r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar y person ifanc.

Mae'r ddau fuddiolwr bellach yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae S yn mynd yno'n aml ar ei liwt ei hun fel defnyddiwr cyson o Ganolfan y Celfyddydau, yn enwedig i fynychu sesiynau mynediad agored yn y digilab. Mae C wedi bod yno sawl tro i osod ei waith a pharatoi ei brintiau ar gyfer yr arddangosfa yn ysbyty Bronglais ac mae Stephen yn gobeithio y bydd C hefyd yn dechrau defnyddio'r digilab i barhau â'i waith ffotograffiaeth.

### **5.3 Casglu Data ac Astudiaethau Achos**

#### **5.3 Oriol Myrddin - Cyfranogwr D**

Ar y dechrau, roedd y gyllideb wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng y ddau fuddiolwr ond wrth i'r prosiectau fynd rhagddynt, newidiodd y cydbwysedd gan fod llai o amser gan K oherwydd apwyntiadau ysbyty felly cynigiwyd rhagor o amser i D weithio gyda Tom Goddard. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r sesiynau yn Oriol Myrddin gyda dau ddiwrnod yng Ngweithdy Argraffu Abertawe.

##### **5.3.1 Meintiol**

Mai 2010-Mawrth 2011

Roedd y sesiynau'n tueddu i redeg 10am-4.30pm unwaith yr wythnos pan oedd hynny'n bosibl, ac unwaith bob pythefnos fel arall. Roedd ysgol D yn teimlo ei fod yn elwa cymaint o'r prosiect, ac felly'n fodlon ei ryddhau o'r ysgol am ddyddiau llawn.

##### **Gweithgareddau gyda D**

Cyfarfu Tom a D am 18 o sesiynau rhwng mis Mai 2010 a mis Mawrth 2011. Ar y dechrau roedd y sesiynau yn hanner diwrnod ond ar y cyfan roedd y rhan fwyaf o'r sesiynau rhwng 10am a 5pm a chynhaliwyd rhai yn ystod y gwyliau haf.

Cynhaliwyd y mwyafrif o'r sesiynau yn yr ystafell addysg yn Oriol Myrddin gyda dau ddiwrnod yng Ngweithdy Argraffu Abertawe. Yn gynnar yn y broses, penderfynwyd y gallai D gael arddangosfa ar ddiwedd y prosiect felly roedd rhywbeth i anelu ato.

##### **5.3.2 Ansoddol**

Cafodd D ei ddethol am fod ganddo ddiddordeb byw mewn celf a'r teimlad oedd y byddai'r prosiect yn fuddiol iddo. Mae mewn gofal maeth ac yn mynychu Ysgol Arbennig Rhydygors. Nid oedd yn hyderus wrth ysgrifennu a darllen nac ychwaith mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd.

##### **Gweithgareddau gyda D:**

- Sesiwn ragarweiniol yn edrych ar waith Tom a gwylio arddangosfa '*Bathing Beauties-reimagining the Beach Hut for the 21<sup>st</sup> Century*' yn Oriol Myrddin
- Cynorthwyo D i gynllunio a gwneud ei gwt traeth ei hun - roedd hyn yn cynnwys defnyddio llawer o gyfarpar a deunyddiau gwahanol
- Penderfynu ar gynnwys yr arddangosfa
- Creu cynlluniau ar gyfer sglefrfyrdau, crysau T, bathodynau, bandiau arddwrn gan ddefnyddio ymchwil, brasluniau a Photoshop

- Cyllidebu'r arddangosfa, ymchwilio i gyflenwyr ac archebu deunyddiau
- Cysylltu â staff yr oriel ynglŷn â'r defnydd o ddeunyddiau, cyfarpar a chynorthwyo â'r gwaith o newid yr oriel
- Cynllunio a phaentio teulu o ffigurau mewn arddull goth
- Ymchwilio i luniau o gyngherddau roc a phyllau 'mosh', datblygu darluniau o gymeriadau i'w cynnwys yn yr ysgythru sychbwynt
- Ysgythru cynlluniau ar Perspex

Ym mis Chwefror teithiodd D i Abertawe ar y trê'n ar ei ben ei hun (am y tro cyntaf) lle'r oedd Tom yno i'w gyfarfod. Ar ôl taith gyflym i Oriel Gelf Glynn Vivian lle mae Tom yn gweithio, aeth y ddau i'r Gweithdy Argraffu gan dreulio cyfanswm o ddau ddiwrnod yno. Dysgodd D lawer o dechnegau newydd a chynhyrchu cyfres lwyddiannus o ysgythriadau sychbwynt.

Roedd y sesiwn olaf yn cynnwys fframio printiau, gosod yr arddangosfa, edmygu toriadau papur newydd a gorffen y gwaith a gosod llythrennau finyl.

Ar 16 Chwefror cafwyd dangosiad preifat o'r arddangosfa, i deulu, cyfeillion, pobl ifanc ac athrawon o'r ysgol. Roedd yr arddangosfa yn llwyddiant mawr. Roedd y safon yn uchel a'r gwaith wedi'i arddangos yn broffesiynol.

### **5.3.3 Canlyniadau**

#### **Canlyniadau :**

- Cynnydd mawr o ran hyder a hunan-barch
- Mwy parod i gofleidio sefyllfaoedd newydd a chyfarfod â phobl anghyfarwydd
- Gweithiodd yn galed ar y prosiect yn ei amser ei hun yn ogystal ag ar ddyddiau gyda Tom a chynhyrchodd lawer o ddarluniau yn ei lyfr braslunio
- Agwedd fwy cadarnhaol a realistig at weithio yn y celfyddydau a dealltwriaeth o'r hyn mae hynny'n ei olygu

#### **Canlyniadau annisgwyl:**

- Arddangosfa unigol yn Oriel Myrddin
- Sylwadau cadarnhaol yn y llyfr ymwelwyr gan deulu, cyfeillion, cymheiriaid yn yr ysgol, staff Oriel Myrddin, ymwelwyr cyffredinol a churaduron
- Sylw yn y wasg
- Cytunodd yr ysgol y gallai ei lyfrau braslunio gael eu hasesu fel rhan o un o'i fodiwlau TGAU
- Daeth teithiau awr ginio i Gaerfyrddin gyda Tom yn rhan hanfodol o'r prosiect gan gyflwyno nifer o sgiliau cymdeithasol fel ymdrin â dieithriaid drwy archebu bwyd mewn caffis, penderfynu lle i fynd a phrynu deunyddiau i'r prosiect
- Dal trê'n ar ei ben ei hun am y tro cyntaf
- Er nad oedd ganddo ddiddordeb mewn ysgrifennu fel arfer, gwnaeth ymdrech fawr i ychwanegu nodiadau i'w frasluniau
- D yn ystyried yn ddifrifol mynd i'r coleg i astudio celf

### **5.3.4 Adborth o'r holiaduron**

#### **Adborth gan y tutor:**

Gwelwyd newid dramatig yn ei agwedd, ei allu i ganolbwyntio a'r sylw mae'n ei roi i fanylion. Mae D wedi tyfu o ran hunanhyder yn ei sgiliau celf a bywyd ac mae'n llawer mwy hyderus yn ymdrin â phobl anghyfarwydd a sefyllfaoedd newydd. Ar ôl gweld nifer o arddangosfeydd yn Oriel Myrddin, mae wedi magu hyder am ei farn ei



hun ynglŷn â'r hyn sy'n rhagori neu sy'n wael ac mae wedi dod yn fwy dadansoddol am ei waith ei hun a gwaith pobl eraill. Mae ganddo allu naturiol i ddarlunio ac mae'n awyddus i archwilio cyfryngau eraill.

#### **Adborth gan riant maeth:**

Er nad yw celf yn yr ysgol wedi'i ysbrydoli, mae gweithio ochr yn ochr â Tom wedi rhoi brwdfrydedd iddo ynghyd â mwy o hunan-barch a hunanhyder. Gweithiodd yn galed adref yn ei amser ei hun gan sicrhau ei fod yn cwblhau'r prosiect. Mae bob amser wedi bod yn darlunio llawer ond yn bennaf wedi bod yn copïo artistiaid eraill. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi hyder iddo yn ei allu ei hun. Nid yw wedi mwynhau ysgrifennu erioed ond mae wedi ysgrifennu llawer yn ei lyfrau braslunio.

#### **Adborth gan y ganolfan:**

Yn y tymor byr daeth yn amlwg bod D wedi elwa ar y prosiect. Dangosodd ffyrdd newydd o weithio iddo, gan gynyddu ei hunanbarch a'i hyder ac mewn ffordd ehangach rhoddodd profiad iddo o weithio gyda thîm o bobl a dysgu sut i barchu'r gwahaniaethau rhwng pobl â'i gilydd a sut maent yn gweithredu. Cafwyd gwelliant pendant yn ei allu i gyfathrebu, canolbwyntio a ffocysu a chynyddodd ei agwedd gadarnhaol at y celfyddydau wrth weithio fwyfwy mewn amgylchedd oriel. Dechreuodd sylweddoli'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni a'r hyn y mae llwyfannu arddangosfa yn ei olygu.

### **5.4 Oriol Myrddin - cyfranogwr K**

#### **5.4.1 Meintiol**

- Mawrth - Awst, chwe sesiwn gydag artist tecstilau, Ainsley Hillard, un yn Aalton House, un yn stiwdio Ainsley yn Llandeilo, un yn Oriol Myrddin a thair ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe.
- Dwy sesiwn grŵp ychwanegol gyda Julia Griffiths Jones - un yn Oriol Myrddin ac un yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol
- Tair sesiwn gyda'r gwneuthurwr ffelt Seren Stacey yn Aalton House

#### **5.4.2 Ansoddol**

##### **Gweithgareddau gyda Ainsley:**

- Ymweliad cyflwyniadol ag Aalton House gydag Ainsley yn dangos ei gwaith i'r myfyrwyr
- Ymweld â stiwdio Ainsley yn Llandeilo ac ymweld â Thŷ Newton, Parc Dinefwr Llandeilo lle'r oedd Ainsley yn cynllunio arddangosfa. Un amcan oedd rhoi profiad 'byw' i'r myfyrwyr o gynorthwyo a gweithio gan gysgodi'r modd y mae artist yn paratoi ar gyfer arddangosfa safle-gyfeiriol  
Dangosodd Ainsley ei hymchwil cyfredol iddynt, gan esbonio ei syniadau a dangos technegau gwehyddu.
- Sesiwn ar dechnegau rhwymo llyfrau gan gynnwys llyfrau plyg a llyfrau syml wedi'u pwytho
- Sesiwn ymarferol 'Sut i ddadbacio gweithiau celf' gyda Meg Anthony, rheolwr yr oriel - dadbacio arddangosfa '*Bathing Beauties*'
- Sesiwn diwrnod llawn ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe gyda thaith o gylch yr Adran Cerameg a chyflwyniad i lechyd a Diogelwch
- Dangosodd Ainsley sut i ddefnyddio clai papur cerameg a chynorthwyodd K i'w wneud a thrwytho tecstilau tra bo Sh yn tynnu ffotograffau o'r broses
- Sesiwn diwrnod llawn yn Adran Cerameg Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Creu rhagor o samplau clai papur i baratoi ar gyfer tanio a thaith o gylch yr

Adran Celfyddyd Gain ac ymweliad â'r ystafelloedd cyfrifiadur i lawrlwytho a thrin y delweddau a gofnodwyd yn Photoshop

- Sesiwn diwrnod llawn yn Adran Cerameg Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Cynhyrchodd K ei ffurfiau cerameg ei hun â llaw a gyda moldiau
- Diwrnod llawn yn y Brifysgol. Cafodd K ac Sh eu hannog i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio i Abertawe. Teithiodd y ddwy ar wahân a hwn oedd y tro cyntaf iddynt deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar eu pen eu hun. Yn y bore fe'u hannogwyd i greu llestri clai drwy rollo, boglynnu, ffurfio â llaw a phwyso i foldiau.

Ni dderbyniwyd y cynnig i K a Sh fynychu gweithdai ffotograffiaeth a thecstilau Nid oedd modd i K a Sh fynd i sesiwn a gynlluniwyd ar weithdy boglynnu ac argraffu yn Abertawe nag ymweld â stiwdio recordio ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe

#### **Gweithgareddau Grŵp gyda Julia Griffiths Jones:**

- Roedd un sesiwn mewn gwaith gwifren ac un mewn darlunio a monoprint
- Cynhaliwyd un sesiwn yn Oriel Myrddin a'r llall yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Drefach Felindre

#### **Gweithgareddau gyda Seren Stacey:**

- Cynhaliwyd tair sesiwn un i un gyda K yn Aalton House
- Roedd y gweithgareddau'n archwilio gwneud ffelt, argraffu cyanotype, mono-argraffu, clymu a llifo a darlunio ffasiwn.

### **5.4.3 Canlyniadau**

#### **Canlyniadau:**

- Collodd K nifer o sesiynau oherwydd salwch ac apwyntiadau ysbyty
- Gadawodd Sh addysg lawn amser ac nid oedd yn gallu mynd gyda K i sesiynau mwyach
- Dechreuodd Ainsley gyfnod mamolaeth a methodd barhau â'r sesiynau ar ddyddiadau diweddarach na'r rhai oedd wedi'u cynllunio'n wreiddiol
- Trefnodd Oriel Myrddin sesiynau grŵp a sesiynau un i un gydag artist arall
- Magodd K hyder yn ei rhyngwneud â phobl eraill a daeth yn hyderus wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus

### **5.4.4 Adborth o holiaduron**

#### **Adborth gan diwtoriaid:**

Roedd K yn barod ei hymateb, yn fyfyrwr brwd ac yn bleser i weithio â hi. Roedd yn dysgu technegau newydd yn gyflym ac yn gallu gweithio mewn ffordd ddwys a chanolbwyntio. Dangosodd allu mawr a thalent naturiol. Ei phrif rwystrau oedd ymdrin â'r byd allanol a dieithriaid gan ei bod yn ymwybodol iawn o'i hanffurfiad ond gwnaeth ymdrech fawr a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd rhai o'r lleoliadau. Roedd yn ddiwyd ac yn awyddus i dalu sylw i fanylion, roedd yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda ac roedd ganddi syniadau am ei gwaith ei hun. Roedd yn ddewr iawn ac yn barod i'w rhoi ei hun mewn sefyllfaoedd heriol gyda chefnogaeth.

#### **Adborth gan y ganolfan:**

Oherwydd amgylchiadau allanol, nid oedd modd i K fynychu'r holl sesiynau a raglennwyd gydag Ainsley a gwnaeth Oriel Myrddin eu gorau i aildrefnu'r amserlen er mwyn i'r prosiect allu parhau a threfnu rhai sesiynau grŵp gyda Julia Griffiths Jones a thair sesiwn un i un gyda Seren Stacey. Roedd rhaid iddi fynd i lefydd a

fyddai fel arfer yn codi ofn arni ond llwyddodd i oresgyn ei hofnau am fod ganddi ddiddordeb yn y prosiect.

## **6.Lefel strategol**

Casglu tystiolaeth ynglŷn â'r canlynol:

- 1.Pa broblemau neu heriau sydd wedi codi a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol?
2. Beth mae partneriaid y prosiect wedi'i ddysgu am gasglu a thystio i ddysgu, gweithio mewn partneriaeth?
3. Pa ganlyniadau annisgwyl a gafwyd (os o gwbl)?

### **6.1. Problemau a Heriau**

- Trefnwyd yr amserlen o gylch oriau ysgol, gwyliau ysgol ac arholiadau ac ambell waith nid oedd modd dilyn yr amserlen wreiddiol.
- Gan na allai buddiolwyr gyfranogi ar fwy nag un prosiect (am nad oedd modd eu cyfrif dwywaith) roedd yn anodd i un prosiect ganfod buddiolwyr
- Heriwyd y bobl ifanc i gyd drwy eu gosod mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd a chael tasgau i'w cyflawni. Mewn ffyrdd gwahanol, wynebodd pob un ohonynt yr heriau. Er eu bod yn wynebu heriau creadigol, roedd yr heriau mwyaf yn ymwneud â sgiliau cymdeithasol gan amrywio o siarad â dieithriaid ar y ffôn ac anfon atodiadau negeseuon ebost, i ddal trêrn ar eu pen eu hunain a thalu bil mewn caffi.
- Gan fod y prosiect yn gweithredu ar sail un i un, roedd ffiniau'n hollbwysig. Mewn rhai achosion roedd y bobl ifanc yn teimlo mai'r tiwtor oedd eu 'ffrind gorau' am eu bod yn cael cymaint o sylw ac roedd angen egluro'r berthynas hon. Hefyd roedd rhaid i'r tiwtoriaid fod yn ymwybodol eu bod yn aml ar eu pen eu hunain gyda'r person ifanc ac felly bod rhaid bod yn ofalus ar bob achlysur.

### **2. Partneriaethau'r prosiect**

- Ar y cyfan roedd y rhain i'w gweld yn gweithio'n dda gyda chyfathrebu da
- Roedd y model gwerthuso 'Dangos Llwyddiant' ar gael ar ffurf drafft ond ystyriai'r tiwtoriaid a'r canolfannau ei fod yn anodd ei weithredu. Roedd yn ymwithiol ac roedd yn well ei ddefnyddio fel gwerthusiad arsylwi.

### **3.Canlyniadau annisgwyl**

- Cafodd tri o'r pedwar cyfranogwr arddangosfeydd cyhoeddus o'u gwaith ar ddiwedd y prosiect
- Mae tri o'r pedwar yn ystyried o ddifrif parhau â'u haddysg ac astudio celf ymhellach
- Roedd dau fuddiolwr yn awyddus i fynychu dosbarthiadau celf / crefft / ffotograffiaeth y tu allan i'r ysgol
- Cafodd un cyfranogwr dri adroddiad yn y wasg a chyfweliad â phapur lleol
- Cynigiwyd arddangosfa dau berson i un cyfranogwr
- Gofynnwyd i un cyfranogwr a gâi ei ffotograffau eu defnyddio mewn lyfryn ac ar wefan Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Gwnaeth dau o'r buddiolwyr ymdrech glir i'w gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd a fyddai fel arfer yn frawychus a goresgyn eu hofnau

- Nid oedd strategaeth ymadael wedi'i sefydlu felly doedd dim dilyniant naturiol i'r buddiolwyr er bod y ddau leoliad yn bwriadu ceisio cadw rhyw fath o gysylltiad.
- Roedd y tiwtoriaid i gyd yn teimlo eu bod wedi dysgu llawer ac wedi'u hymestyn wrth feddwl am ffyrdd o weithio gyda phobl ifanc mwy agored i niwed ac felly'n deall mwy am bobl ifanc NEET a'r trafferthion y maent yn eu hwynebu.

## **7. Argymhellion a Chasgliadau**

### **7.1 Lefel y prosiect**

- Yn gyffredinol, mae'n amlwg fod pawb wedi gwerthfawrogi'r profiad a bod y bobl ifanc wedi elwa llawer ar gael y fath ymglymiad dwys â phrosiect y tu allan i'r ysgol a'r cartref. Cafodd y buddiolwyr y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau mewn oriel ac o'i chwmpas. Cawsant gyfle i weld arddangosfeydd, dysgu sut i ddadbacio darnau arddangos a sut i'w harddangos, sut i dynnu ffotograffau o waith, sut i weithio gydag aelodau eraill o dîm oriel a sut i drafod eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Yn nhermau eu gwaith eu hunain, rhoddwyd cyfle iddynt weld amrywiaeth o amgylcheddau gwaith o stiwdios artistiaid i orielau, gweithdy argraffu a gofynnwyd iddynt gysylltu â staff a'r cyhoedd. Mae'n amlwg bod llawer o fuddion cadarnhaol wedi codi i'r bobl ifanc drwy ymglymu mewn prosiect o'r math hwn.
- Roedd y cyfle i gael hyfforddiant un i un mewn maes oedd yn eu diddori yn fuddiol iawn i'r buddiolwyr. Gellir gweld o'r ymatebion i'r holiadur gan artistiaid, gofaluwyr, rhieni, staff ac ysgolion bod y bobl ifanc wedi dangos gwelliannau sylweddol yn eu hymddygiad. Maent wedi dysgu llawer am ryngweithio ag eraill y tu allan i'r ysgol neu'r teulu ac wedi dysgu sut i barchu a thrafod materion yn hytrach nag anwybyddu barn pobl eraill.
- Mae'r pedwar buddiolwr wedi dangos ymrwymiad i'r prosiect drwy ddod yno'n rheolaidd, cyfranogi'n weithredol yn y gweithdai a'r gweithgareddau, gwneud gwaith yn eu cartrefi a dangos diddordeb mewn parhau â'r gwaith celf ar ôl diwedd y prosiect.
- Mae dau o'r buddiolwyr ers hynny wedi ymgeisio am lefydd mewn colegau celf ac wedi cael cynnig lle. Mae un yn bwriadu ymgeisio ac mae'r pedwerydd am barhau â'i ddiddordeb mewn ffotograffiaeth drwy fynychu dosbarthiadau a'r digilab yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

### **7.2 Lefel strategol**

- Byddai wedi bod yn fuddiol cynnal cyfarfod ar ddechrau pob prosiect gyda'r holl bartion a hefyd ar y diwedd. Er bod hyn wedi'i gynllunio'n wreiddiol, nid oedd yn bosibl gan fod y pedwar prosiect yn dechrau ar adegau gwahanol.
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r model gwerthuso 'Dangos Llwyddiant' wedi bod ar gael ar ddechrau'r prosiect yn hytrach nag ar y diwedd oherwydd ystyriwyd nad oedd y fersiwn drafft yn hawdd ei ddilyn a'i weithredu.
- Mae'n bosibl mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol, y gallai achrediad fod o gymorth i bobl ifanc barhau â'u haddysg neu ddod o hyd i gyflogaeth. Mae engage Cymru yn awyddus i ymchwilio i'r posibilrwydd o achrediad *Arts Award* yng Nghymru
- Awgrymwyd mewn rhai achosion y gallai fod yn briodol cael mwy nag un person ifanc ar y tro gyda phosibilrwydd o hyd at dri neu bump fel bod y

person ifanc yn gallu dysgu gweithio fel tîm a deall parch rhwng cymheiriaid â'i gilydd.

- Byddai diwrnod hyfforddi i diwtoriaid ar ddechrau'r prosiect yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth weithio gyda phobl ifanc agored i niwed gan gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth a hyfforddiant datblygu proffesiynol i artistiaid a thiwtoriaid.
- Roedd hyblygrwydd y dull a gyflwynwyd gan engage Cymru yn golygu bod pob prosiect yn gallu canolbwyntio ar anghenion y person ifanc ac addasu'n unol â hynny. Roedd y ddwy ganolfan a'r holl diwtoriaid yn hollol hyblyg gyda'r prosiect.
- Byddai'n ddefnyddiol cynllunio strategaeth ymadael fel nad yw'r bobl ifanc yn teimlo ar goll yn sydyn. Gellid neilltuo peth cyllid ar gyfer diwedd arafach neu integreiddio i ddsbarthiadau mwy rheolaidd neu gyfleoedd gwirfoddoli / cysgodi.
- Mae'r ddwy ganolfan wedi annog y buddiolwyr i barhau â'u cyswllt drwy fynychu dosbarthiadau a sesiynau galw heibio pellach.

## 8. Atodiadau

### 8.1 Holiadur i'r Ganolfan Letyol

LLEOLIAD ..... Artist ..... yn gweithio gyda .....

#### Beth oedd eich amcanion ar gyfer y prosiect?

- A) Rhoi profiad newydd i'r bobl ifanc?
- B) Gweithio gydag artist proffesiynol?
- C) Rhoi hyder i bobl ifanc weithio yn y celfyddydau?
- D) Arall?

#### CYNLLUNIO

A oedd y rhaglen yn gaeth i nifer benodol o sesiynau?  
I ffordd benodol o weithio?

Sylwadau? + a -

#### Y BOBL IFANC

Sut cafodd y bobl ifanc eu dethol?  
Oedd hon yn broses syml?  
Oedd yna drafferthion?  
Unrhyw awgrymiadau am ffyrdd i wella'r broses hon?

#### ARTIST/IAID

Sut cafodd yr artistiaid eu dethol a'u cydweddu â buddiolwyr?  
Oedd y broses hon yn llwyddiannus ynteu oes gennych chi awgrymiadau i wella hyn yn y dyfodol?

Sylwadau eraill

#### PARTNERIAID

Pa mor hawdd oedd dynodi partneriaid yn y prosiect?    Hawdd                      Gweddol                      Anodd

Sylwadau eraill ...

Pa mor hawdd oedd symbylu athrawon/arweinwyr ieuentid i gyfranogi?

Hawdd                      Gweddol                      Anodd

Pa mor hawdd oedd amserlennu'r prosiect i'r cwricwlwm?    Hawdd                      Gweddol                      Anodd

Pwy wnaeth y cysylltiadau rheolaidd?    Y lleoliad                      yr artist                      y ddau                      eraill

#### EICH GWERTHUSIAD O'R PROSIECT

#### EICH SEFYDLIAD

Oedd y prosiect yn :  
hawdd ei weinyddu                      gweddol hawdd ei weinyddu                      yn cymryd amser hir i'w weinyddu?

Unrhyw awgrymiadau i helpu prosiectau redeg yn fwy llyfn yn y dyfodol?

**Oeddech chi'n teimlo bod gennych berthynas waith â'r artist?**

**Nac oeddwn**

**Oeddwn          Sut?**

**Ydych chi'n credu bod y prosiect wedi cael effaith barhaol ar y bobl ifanc?**

Os do, a oedd yn gwneud y canlynol?

- A) Dangos ffyrdd newydd o weithio iddynt
- B) Cynyddu eu diddordeb yn y celfyddydau
- C) Cynyddu eu diddordeb mewn dysgu
- D) Cynyddu eu hunanhyder
- E) Cynyddu eu hunanbarch
- F) Oedd gweithio mewn oriel yn rhoi cyfle i bobl ifanc (yn enwedig rhai anodd eu cyrraedd) i ymwneud â'r celfyddydau?
- G) Arall

Ym mha ffyrdd?

**Pa mor dda oedd y person ifanc yn cyfranogi'n weithredol yn y prosiect?**

**Oedden nhw'n dda am ddod i bob sesiwn a drefnwyd? 0 1 2 3 4 5**

**A welsoch chi eu hyder yn cynyddu?                  Naddo                  ychydig                  llawer**  
**Os llawer - ym mha ffordd?**

**A welsoch chi eu hymddygiad yn gwella?                  Naddo                  ychydig                  llawer**  
**Os do - ym mha ffordd?**

**A ddaeth eu hagwedd at y celfyddydau yn fwy cadarnhaol?                  Naddo                  ychydig                  llawer**  
**Ym mha ffordd?**

**A ddaeth eu hagwedd at ddysgu sgiliau newydd yn fwy cadarnhaol?                  Naddo                  ychydig                  llawer**  
**Enghreifftiau?**

**EICH GWERTHUSIAD O'R PROSIECT**

**Oeddech chi'n meddwl fod y prosiect yn llwyddiant?                  Nac oedd                  yn rhannol                  oedd**  
**Os oedd, sut felly?**

**Beth weithiodd orau i chi?**

**Beth weithiodd leiaf?**

**Awgrymiadau i wella trefniadau'r prosiect?**

**A newidiodd y prosiect eich barn am rôl y celfyddydau yn natblygiad pobl ifanc?**  
**Do - mwy cadarnhaol Sut?**

**Do mwy negyddol**

**Naddo - eisoes yn gadarnhaol**

Na - arall

## UNRHYW GANLYNIADAU ANNISGWYL?

### 8.2 Holiadur i'r tiwtoriaid/artistiaid

Artist Cyfranogwr

Enw'r prosiect

Dyddiad y prosiect

#### 1. PARATOI'R PROSIECT:

Oedd amcanion y prosiect yn glir? A) Oedden  
B) Nac oedden, ond doedd dim problem  
C) Nac oedden, ac roedd hynny'n broblem

Pa wybodaeth gawsoch chi gan y trefnydd?

- A) oed y person ifanc
- B) galluoedd y person ifanc
- C) cysylltiadau cwricwlwm
- D) cyswllt â'r athro / gweithiwr cymorth / rhiant
- E) y gofod a'r cyfleusterau oedd ar gael
- F) arall

Wrth edrych yn ôl, a gawsoch chi'r holl wybodaeth angenrheidiol cyn dechrau'r prosiect?

Do Naddo - beth arall oedd angen i chi ei wybod?

Unrhyw beth arall?

#### 2. CYFLENWI'R PROSIECT

Nifer o sesiynau

Hyd y sesiynau

Amledd y sesiynau

Cynnwys y sesiynau

A gawsoch chi'n gefnogaeth angenrheidiol gan y ganolfan? Do - Sut? Naddo

A helpodd y person ifanc â'r gwaith o gynllunio'r sesiynau? Do - Sut? Naddo

A gawsoch chi broblemau wrth gyflenwi'r prosiect? Do - Beth? Naddo

Os do, sut cafodd y rhain eu datrys?

#### 3. EICH PROFIADAU

A gyfrannodd y prosiect at eich datblygiad artistig chi? Do - Sut? Naddo



A gyfrannodd y prosiect i'ch gwybodaeth chi am y system addysg / ieuencid?

Do - Sut?      Naddo

Oedd y prosiect yn llwyddiant yn eich barn chi?

Oedd    Yn rhannol

Nac oedd

Sut gallai fod yn well?

A oes unrhyw beth am y prosiect yn gyffredinol y byddech chi wedi'i newid?

4.EFFAITH AR Y PERSON IFANC

A gynyddodd ei hyder? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

A gynyddwyd y gallu i ganolbwyntio? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Y gallu i osod targedau a chyflawni amcanion? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Oedd agweddau at y celfyddydau yn fwy cadarnhaol? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

A wellodd sgiliau cyfathrebu? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Gwella sgiliau gwranddo, y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Gwella sgiliau dadansoddi? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Sut datblygodd eu gallu creadigol? 0 1 2 3 4 5

5.CANLYNIADAU ERAILL?

A weithiodd y person ifanc ar y prosiect gartref rhwng sesiynau?

Do - Sut?

Naddo



Amledd y sesiynau

Cynnwys y sesiynau

Ydych chi'n meddwl fod y prosiect wedi bod yn llwyddiant? Ydw Yn rhannol Nac ydw

Sut gallai fod yn well?

Oes yna unrhyw beth am y prosiect cyffredinol y byddech chi wedi ei newid?

4.EFFAITH AR Y PERSON IFANC

A gynyddodd ei hyder? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

A gynyddwyd y gallu i ganolbwyntio? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Y gallu i osod targedau a chyflawni amcanion ? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Oedd agweddau at y celfyddydau yn fwy cadarnhaol ? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

A wellodd sgiliau cyfathrebu? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

A wellodd y gallu i weithio ar ei liwt ei hun? 0 1 2 3 4 5

Gwella sgiliau dadansoddi ? 0 1 2 3 4 5

Enghraifft

Sut datblygodd creadigrwydd personol? 0 1 2 3 4 5

5.CANLYNIADAU ERAILL?

A weithiodd y person ifanc ar y prosiect gartref rhwng sesiynau?

Do - Sut? Naddo

Ydych chi'n teimlo y bydd y person ifanc yn cael ei gymell i wirfoddoli mewn lleoliad celfyddydol neu fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol i weithio yn y celfyddydau / mewn sefyllfa oriel?

Unrhyw ganlyniadau annisgwyl

Oedd y prosiect yn gweithio'n dda ar ffurf un i un? Ynteu a fyddai grŵp bach wedi bod yn well?

#### **8.4 Holiadur i'r cyfranogwr Cyfranogwr**

**Ydych chi wedi cymryd rhan mewn prosiect celfyddydol y tu allan i'r ysgol o'r blaen? Os do, fedrwch chi ei ddisgrifio?**

**Pam oeddech chi am gymryd rhan yn y prosiect hwn?**

**Sut wnaethoch chi benderfynu beth i'w wneud?**

**Yn y prosiect hwn, beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf?**

**Yn y prosiect hwn, beth wnaethoch chi ei fwynhau leiaf?**

**Ydych chi wedi dysgu unrhyw sgiliau newydd o ganlyniad i'r prosiect?** Fel darlunio, ffotograffiaeth, gwneud penderfyniadau, gosod amcanion, trafod eich syniadau gyda rhywun arall

**Oes rhai o'r sgiliau hyn wedi eich helpu chi a) gartref b) yn yr ysgol c) gyda ffrindiau?**

**Oes yna unrhyw beth arall y byddech chi yn ei newid mewn sesiynau yn y dyfodol?**

**Oedd cyfle i chi wneud unrhyw waith celf rhwng y sesiynau tra'ch bod chi gartref?**

**Ydy'r prosiect wedi'ch helpu chi i feddwl am beth hoffech chi ei wneud ar ôl ysgol yn nhermau gwaith neu hyfforddi?**

Os felly, beth?

**Pe baech chi'n cael cyfle i gymryd rhan mewn prosiect celf eto, a fydddech chi'n hoffi gwneud hynny?**

**Pa effaith, os o gwbl, mae'r prosiect wedi'i gael arnoch chi?**

Sgoriwch 1-5 gyda 5 yn uchel

Mwy hyderus gyda fy ngwaith celf 1 2 3 4 5

Mwy hyderus yn ymdrin â dieithriaid 1 2 3 4 5

Mwy creadigol 1 2 3 4 5

**Ym mha ffordd?**

Gallu mynegi syniadau wrth siarad yn well 1 2 3 4 5

Gallu mynegi syniadau yn y gwaith celf yn well 1 2 3 4 5

Gallu mynegi syniadau yn ysgrifenedig yn well 1 2 3 4 5

Mwy o ddiddordeb mewn mynychu digwyddiadau celf 1 2 3 4 5

Mwy o ddiddordeb mewn addysg a hyfforddiant 1 2 3 4 5

**Pe baech chi'n cael gwneud unrhyw beth o gwbl gyda'ch bywyd, beth yw eich breuddwyd?**